ATODLEN 3

## Diwygio Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Gorfodi) (Gweithdrefn Sylwadau Ysgrifenedig) (Cymru) 2003

**2.** Ar ôl rheoliad 2(1), mewnosoder—

"(2) Yn y Rheoliadau hyn, ac mewn perthynas â defnyddio cyfathrebu electronig at unrhyw ddiben yn y Rheoliadau hyn y mae modd ei gyflawni yn electronig,—

(a) bydd yr ymadrodd "cyfeiriad" yn cynnwys unrhyw rif neu gyfeiriad a ddefnyddir at ddibenion cyfathrebu o'r fath, ac eithrio pan fydd y Rheoliadau hyn yn gosod rhwymedigaeth ar unrhyw berson i roi enw a chyfeiriad i unrhyw berson arall, ni fydd y rhwymedigaeth wedi'i chyflawni oni roddir cyfeiriad post gan y person sydd o dan y rwymedigaeth;

(b) bydd cyfeiriadau at hysbysiadau, sylwadau neu ddogfennau eraill, neu at gopïau o'r fath bethau, yn cynnwys cyfeiriadau at y pethau hynny, neu at gopïau ohonynt, ar ffurf electronig.

(3) Bydd paragraffau (4) a (7) yn gymwys os defnyddir cyfrwng cyfathrebu electronig gan berson er mwyn cyflawni unrhyw ofyniad yn rheoliadau 4 i 8 o'r Rheoliadau hyn y dylai sylwadau neu ddogfennau eraill gael eu hanfon at neu eu cyflwyno i unrhyw berson arall ("y derbyniwr").

(4) Cymerir y bydd y gofyniad wedi'i gyflawni pan fydd y ddogfen a drosglwyddir drwy gyfrwng cyfathrebu electronig—

(a) yn gallu cael ei chyrchu gan y derbyniwr;

(b) yn ddarllenadwy ym mhob manylyn o bwys; ac

(c) yn ddigon parhaol fel bod modd cyfeirio ati yn nes ymlaen.

(5) Ym mharagraff (4), ystyr "yn ddarllenadwy ym mhob manylyn o bwys" yw bod yr wybodaeth a geir yn y ddogfen ar gael i'r derbyniwr i raddau nad ydynt yn llai na phe bai wedi'i hanfon neu ei rhoi drwy gyfrwng dogfen ar ffurf brintiedig.

(6) Os cafwyd y cyfathrebiad electronig gan y derbyniwr y tu hwnt i'w oriau busnes, cymerir ei fod wedi'i gael ar y diwrnod gwaith nesaf; ac, at y diben hwn, ystyr "diwrnod gwaith" yw diwrnod nad ydyw'n ddydd Sadwrn, yn ddydd Sul, yn ŵyl y Banc nac yn ŵyl gyhoeddus arall.

(7) Bydd gofyniad yn y Rheoliadau hyn y dylai unrhyw hysbysiad neu ddogfen fod yn ysgrifenedig wedi'i gyflawni os bydd y ddogfen honno'n cwrdd â'r meini prawf a geir ym mharagraff (4); ac mae "yn ysgrifenedig" ac ymadroddion cytras i'w dehongli yn unol â hynny (ac eithrio yn rheoliad 5).".